

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a
Materion Gwledig
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: AC/277/caf

Dyddiad cyhoeddi: 9 Gorffennaf 2021

Annwyl Paul

Gwaith Archwilio Cymru

Llongyfarchiadau ar eich penodiad fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich swydd newydd ac ar ddechrau cyfnod o bum mlynedd heriol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae fy nghylch gwaith fel Archwilydd Cyffredinol Cymru yn golygu mai fi yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru. Ym mis Medi, rwy'n bwriadu cyhoeddi cyfres o allbynnau 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'. Bydd y rhain yn cynnwys ein barn ar yr heriau ariannol ac ehangach allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf a byddant yn nodi rhai o'r meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus lle byddaf yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus ddangos cynnydd. Gobeithio y bydd allbynnau'r gwaith hwn o ddiddordeb i holl Aelodau'r Senedd ac y byddant yn darparu pwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol.

Rwy'n disgwyl y bydd gwaith Archwilio Cymru yn parhau i fod yn rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PCCGG) newydd, gyda PCCGG yn parhau i fod yn brif gynulleidfa i ni. Fodd bynnag, dwi hefyd yn awyddus i Archwilio Cymru ddefnyddio ei bersbectif a'i

arbenigedd unigryw i gefnogi gwaith pwyllgorau eraill y Senedd lle mae gennym wybodaeth archwilio berthnasol i'w chyflwyno. Felly, byddem yn croesawu'r cyfle i gael ein cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriadau ehangach y mae eich Pwyllgor yn eu cynnal. Dwi hefyd yn rhagweld y bydd achlysuron o hyd lle y gallai pwyllgorau ar wahân i PCCGG arwain y gwaith o graffu ar faterion a godir yn fy adroddiadau, lle mae'r rhain yn berthnasol ac yn amserol yng nghyd-destun eu gwaith craffu eu hunain.

Rydym newydd gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf, sy'n adrodd hanes ein gwaith yn ystod 2020-21 ac yn cynnwys dolenni i rhai o'n prif allbynnau. Mae ein Hadroddiad Blynyddol hefyd yn crynhoi'r gwaith sydd wrthi'n cael eu cynnal neu rydym yn bwriadu eu cychwyn yn hwyrach yn y flwyddyn a byddwn yn rhannu rhagor o fanylion gyda thimau clericio'r pwyllgorau dros yr haf. Er enghraifft, rydym yn ystyried rhywfaint o waith i adrodd ar faterion sy'n ymwneud â chefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau yn ystod pandemig COVID-19. Gall hyn ddefnyddio rhywfaint o'n gwaith paru data o dan y Fenter Twyll Genedlaethol. Rydym hefyd yn cadw golwg barhaus ar ddatblygiadau ôl Brexit, yn dilyn ein gwaith yn edrych ar barodrydd yn y Senedd flaenorol.

Os hoffech chi neu aelodau eich Pwyllgor gael gwybod mwy am waith Archwilio Cymru, mae croeso i chi gysylltu. Os oes gan Aelodau bryderon penodol am y defnydd o arian cyhoeddus, rydym bob tro'n agored i dderbyn gohebiaeth. Gall Aelodau naill ai gysylltu â mi'n uniongyrchol neu gallant wneud hynny drwy ein cyfeiriad e-bost Archwilio Cymru post@archwilio.cymru. Mae rhagor o fanylion am sut rydym yn ymdrin â gohebiaeth o'r fath ar gael ar ein gwefan: [Codi pryderon | Archwilio Cymru](#).

Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi dros y pum mlynedd nesaf.

Dymuniadau gorau



ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru